



Ysgol Rhydypennau
Hydref 2021

Ysgol Rhydypennau: Polisi ar gyfer



Ymddygiad Rhieni

Mabwysiadwyd ar:	11.10.21
Llofnod: Cadeirydd y Llywodraethwyr	<i>Rhodes Morgan</i>
Dyddiad adolygu'r polisi hwn	Tymor yr hydref 2023
Swyddogion a Enwir i ddiwygio'r Polisi hwn	Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr

POLISI YMDDYGIAD RHINI

Yn Ysgol Rhydypennau, credwn fod gan staff, rhieni a phlant hawl i amgylchedd diogel ac amddiffynnol i weithio ynddo. Mae ymddygiad a fydd yn achosi braw neu ofid i ddefnyddwyr y safle yn groes i amcanion yr ysgol. Disgwylir i staff, plant, rhieni / gofalwyr ac ymwelwyr ymddwyn yn gwrtais tuag at yr holl staff, rhieni / gofalwyr eraill, y plant a defnyddwyr eraill y safle.

Disgwyliadau

Bod oedolion yn gosod esiampl dda i blant bob amser, gan ddangos iddynt sut i gyd-dynnu â holl aelodau'r ysgol a'r gymuned ehangach.

Nad oes unrhyw aelodau o staff, rhieni na phlant yn dioddef ymddygiad ymosodol nac yn agored i fygythiadau gan oedolion eraill ar safle'r ysgol neu oddi arno.

Na fydd ymosodiadau corfforol ac ymddygiad bygythiol, iaith ymosodol neu sarhaus (ar lafar, yn ysgrifenedig, neu'n electronig e.e. negeseuon testun, Facebook, Twitter) tuag at staff, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr, plant a defnyddwyr eraill safle'r ysgol yn cael eu goddef ac y gallai arwain at beidio â chael mynediad i safle'r ysgol. Bydd yr ysgol yn hysbysu rhieni yn unol â hynny naill ai'n ysgrifenedig neu dros y ffôn.

Y bydd gan unrhyw riant y gofynnir iddynt adael safle'r ysgol yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad trwy ysgrifennu at Gadeirydd y Llywodraethwyr ymhen deg diwrnod i'r adeg y gwrthodwyd caniatâd iddynt fynd ar safle'r ysgol.

Canllawiau

Dyma enghreifftiau o'r mathau o ymddygiad sy'n cael eu hystyried yn ddifrifol ac yn annerbyniol ac na fyddant yn cael eu goddef tuag at unrhyw aelod o gymuned yr ysgol. Nid yw hon yn rhestr gyflawn ond mae'n ceisio darparu enghreifftiau o ymddygiad o'r fath:

Gweiddi, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn

Negeseuon amhriodol / difriol ar wefannau Rhwydweithio Cymdeithasol sy'n cynnwys enw'r ysgol neu gyfeiriad ati, ei staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach

Siarad mewn llais ymosodol / bygythiol

Dychryn yn gorfforol, e.e. sefyll yn agos iawn

Defnyddio ystumiau llaw ymosodol / symudiadau gormodol

Bygythiadau corfforol

Ysgwyd neu ddal dwrn tuag at berson arall

Rhegi

Gwthio

Taro e.e. slapio, dyrnu neu gicio

Poeri

Sylwadau hiliol, rhywiaethol neu homoffobig

Noder y bydd pob digwyddiad, gan gynnwys anghwrteisi, yn cael ei gofnodi gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ac y gallai ymddygiad annerbyniol arwain at hysbysu'r Heddlu.

Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau nad yw aelodau o gymuned yr ysgol yn destun camdriniaeth.

Eiddo preifat yw safle'r ysgol a rhoddir caniatâd gan yr ysgol i rieni fod ar y safle. Fodd bynnag, mewn achosion o gam-drin neu fygwth staff, disgyblion, rhieni eraill neu ymwelwyr, gall yr ysgol wahardd rhieni rhag dod ar safle'r ysgol. Mae hefyd yn drosedd o dan Adran 547 o Ddeddf Addysg 1997 i unrhyw berson (gan gynnwys rhiant) darfu neu aflonyddu ar safle'r ysgol. Mae'n bosibl y bydd yr Heddlu'n cael eu galw i gynorthwyo i symud unrhyw berson o safle'r ysgol.

Nid yw ysgolion yn gyfrifol am drefnu i'r plant gyrraedd yr ysgol o dan yr amgylchiadau uchod a bydd angen i rieni wneud trefniadau amgen ar gyfer dod â phlant i'r ysgol.

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae'r ysgol yn falch o'n darpariaeth allgyrsiol. Mewn unrhyw flwyddyn gallwn fynychu hyd at 20 o gystadlaethau lleol, sirol a chenedlaethol. Yn y rhan fwyaf o achosion mae croeso i rieni ddod draw i gefnogi eu plant ond gofynnwn yn garedig i bawb ymddwyn yn briodol tuag at y swyddogion sy'n trefnu'r cystadlaethau, rhieni o'r ysgol hon neu unrhyw ysgol arall a thuag at y staff, sy'n aml yn mynychu'r digwyddiadau hyn yn wirfoddol.

Cyfrifoldeb y Pennaeth a'r Llywodraethwyr yw monitro ac adolygu'r polisi hwn.